CAERDYDD
CARDIFF

DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 27 MEDI 2018 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 27 SEPTEMBER 2018, |

Fe'ch gwysir i fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, Heol Gerddi'r Orsedd, Caerdydd, CF10 3ND ar Dydd Iau, 27 Medi 2018 am 4.30 yp i drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

21 Medi 2018

Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch at eraill   Gwrthrychedd a priodoldeb   Anhunaoldeb a stiwardiaeth
Uniondeb   Dyletswydd i gynnal y gyfraith   Atebolrwydd a bod yn agored

Trwy dderbyn y Pecyn Agenda hwn yn electronig, rydych wedi arbed yr Awdurdod tua. **£ 11.10** mewn costau argraffu

## GWE-DARLLEDU

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd

| *Eitem* | | *Tua Amser* | *Max Amser* |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>*Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.* | 4.30 pm | 5 mun |
| **2** | **Datgan Buddiannau**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau).* | | |
| **3** | **Cofnodion** *(Tudalennau 7 - 32)*<br><br>*Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2018 fel gwir gofnod.* | | |
| **4** | **Cwestiynau Cyhoeddus** *(Tudalennau 33 - 34)*<br><br>*Derbyn cwestiynau yr hysbyswyd amdanynt ymlaen llaw gan Aelodau'r Cyhoedd.* | 4.35 pm | 5 mun |
| **5** | **Deisebau**<br><br>*Derbyn deisebau gan Aelodau Etholedig i'r Cyngor.* | 4.40 pm | 5 mun |
| **6** | **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**<br><br>*Derbyn cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau.* | 4.45 pm | 5 mun |
| **7** | **Datganiad Cyfrifon 2017/18 ac Adroddiadau Blynyddol Rheoli Trysorlys 2017/18**<br>*(Tudalennau 35 - 328)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau*<br><br>***Nid yw Atodiad 9 ac Atodlen B ac C i'w cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i heithrio dan y disgrifiad a geir ym Mharagraffau 14 a 21 Rhan 4 a 5 Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972.*** | 4.50 pm | 30 mun |
| **8** | **Datganiadau'r Arweinydd a'r Cabinet**<br>*(Tudalennau 329 - 358)*<br><br>*Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet* | 5.20 pm | 45 mun |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **9** | **Hysbysiad o Gynnig**<br><br>Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Joe Boyle<br><br>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Ashley Wood<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r canlynol:<br><br>• Pleidleisiodd 60% o drigolion Caerdydd i aros yn yr Undeb Ewropeaidd, y gyfran bleidlais aros uchaf yng Nghymru gyfan;<br>• Mae 61% o allforion Caerdydd yn mynd i wledydd yr UE, gan roi Caerdydd o fewn y pum dinas Prydeinig sydd yn fwyaf dibynnol ar farchnadoedd y DU;<br>• Mae gan Gaerdydd gynlluniau i adeiladu 40,000 o dai newydd ar adeg lle mae diwydiant adeiladau'r DU yn dibynnu ar ddinasyddion yr UE am 8% o'i weithlu;<br>• Ers 2014 mae Cyngor Caerdydd wedi cefnogi 26 o brojectau buddsoddi unongyrchol tramor gan gwmnïau o 12 gwlad, 7 ohonynt yn Aelod Wledydd yr UE, gan arwain at greu a diogelu 3,958 swydd lleol;<br>• Fe wnaeth gwaith a ymgymerwyd gan y Ganolfan dros Ddinasoedd amcangyfrif y bydd Brexit 'meddal' yn lleihau Gwerth Ychwanegol Crynswth Caerdydd gan 1.3% lle byddai Brexit 'caled' yn ei lleihau gan 2.5% a hyd at 2.73% yng Nghaerdydd;<br>• Mae bron i 3,000 o fyfyrwyr yn y ddinas-ranbarth o'r UE, bron i 4% o'r boblogaeth myfyrwyr gyfan;<br>• Ymgeisiodd Cyngor Caerdydd yn llwyddiannus yn 2016 am tua €1.7m o gyllid o'r rhaglen Erasmus+ ar gyfer wyth project a oedd yn cynnwys consortia o ysgolion ledled Cymru;<br>• Yn 2017, cydlynodd Cyngor Caerdydd rhaglenni Erasmus+ a oedd wedi sicrhau €8.6m ar gyfer projectau ledled Cymru;<br>• Ar gyfer Prifysgol Caerdydd yn unig, byddai sicrhau mynediad yn y dyfodol at olynydd Horizon 2020 yn diogelu incwm ymchwil o dros £10 miliwn y flwyddyn a chynorthwyo canolfannau byd-flaengar fel y Ganolfan Delweddu'r Ymennydd Prifysgol Caerdydd;<br>• Nododd adroddiad 2018 o'r Adran Iechyd fod staff o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn cyfateb i 7% (90,000) o'r gweithlu gofal cymdeithasol oedolion; Tyfodd y nifer hynny gan 32,000 (mwy na 50%) rhwng 2012-13 a 2016-17;<br>• Mae gweithwyr o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd hefyd o fewn meysydd eraill, 15% o ddeintyddion, 9.1% o feddygon a 5.5% o nyrsys a bydwragedd. Mae'r nifer o nyrsys a bydwragedd o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd sydd wedi cofrestru wedi mwy na dybli rhwng 2013 a 2017, o 16,798 i 38,024;<br>• Mae'r ffigyrau diweddar o'r Cyngor Nyrsio a | 6.05 pm | 30 mun |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydwreigiaeth yn dangos bod y nifer o nyrsys newydd sy'n do o'r UE i weithio yn y DU wedi gostwng 87% o 6,382 yn 2016/17 i 805 yn 2017/18 ac mae'r mewnlif o nyrsys o wledydd tu allan i'r UE heb gynyddu digon i gydbwyso'r colled.<br>• Rhaid i Aelodau Etholedig gael y cyfle i ddylanwadu ar bolisi cenedlaethol pan fod y polisi hwnnw yn sicr o effeithio ar y ddinas maent yn cynrychioli.<br><br>Mae'r Cyngor yn penderfynu:<br><br>1. Bod y Cyngor yn archwilio pa rwymedigaethau sydd gan Lywodraeth y DU i roi gwybodaeth a dadansoddiad adrannol y Llywodraeth i Gyngor Caerdydd, hyd yn oed os bernir eu bod yn gyfrinachol, am yr effaith y byddai tynnu allan y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn ei chael ar Cymunedau a busnesau. | | |
| **Egwyl** | | | |
| **10** | **Cwestiynau Llafar**<br><br>*Cwestiynau ar lafar i'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet; Cadeiryddion y Pwyllgor a/neu Aelodau enwebedig o'r Awdurdod Tân.* | 7.00 pm | 60 mun |
| **11** | **Materion Brys** | 8.00 pm | 5 mun |
| **Materion y Cyngor nas Gwrthwynebir** | | | |
| **12** | **Penodi Llywodraethwyr Ysgolion yr Awdurdod Lleol** *(Tudalennau 359 - 364)*<br><br>*Cymeradwyo argymhellion Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol 17 Medi 2018*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.* | 8.05 pm | 5 mun |
| **13** | **Aelodaeth y Pwyllgor** *(Tudalennau 365 - 366)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.* | | |
| **14** | **Penodi Cynrychiolwyr i Gyrff Allanol** *(Tudalennau 367 - 370)*<br><br>*Adroddiad Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Cyfreithiol* | | |

| | |
|---|---|
| **15** | **Cwestiynau Ysgrifenedig**<br><br>*Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.* |